Bu criw o flwyddyn 4 am benwythnos brysur yng nghanolfan yr Urdd Llangrannog. Penwythnos i'w chofio glywais i!! Yna cafodd blwyddyn 6 y cyfle i fynd i Lan-llyn am ychydig ddyddiau. Cymerwyd rhan mewn amrywiol weithgareddau. Dyma adroddiadau rhai o'r plant a gafodd amser da.

Rwy'n meddwl bod Glan-llyn yn lle dda i gael gwyliau anturus a hwyl. Mwynheais i a fy ffrindiau y canwio ar y llyn. Roedd ystafelloedd cysgu Glan-llyn yn fawr gyda ystafell ymolchi. Roedd y bwyd yn flasus iawn.

Cara Spencer

Roedd Glan-llyn yn ffantastig. Mwynheais gyd o'r gweithgareddau, ond fy hoff rai oedd canwio a dringo. Roedd y bwyd yn flasus iawn. Mae Glan-llyn yn lle grêt i gwrdd â ffrindiau newydd.

Sarah Webber

Roedd Glan-llyn yn ardderchog achos roedd yn llawer i wneud. Fy hoff bethau oedd adeiladu rafft, bowlio deg, mynd i ganwio a dringo wal. Roedd y bwyd yn flasus iawn.

Johnathan Theobald

Ras beli

Trefnodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon noson i godi arian i goffrau'r ysgol. Cafwyd noson dda iawn gyda disgo a bwyd i ddilyn yn y Clwb. Llawer o ddiolch i bawb am eu gwaith ac am gasglu'r arian ar gyfer yr ysgol.

Canu

Aeth rhai o blant yr ysgol i ymuno â chôr Ceredigion gan gymryd rhan mewn noson o adloniant yn y Neuadd Fawr. Bu'n brofiad da iddynt.

Chwaraeon

Daeth tîm yr ysgol yn enillwyr Cwpan Cynghrair y cylch.

Diolch

Mae ein diolch yn fawr i Mr Gareth Rowlands, Fferm Bryn-llys am gyflwyno cit rygbi i'r ysgol.

Tae Kwando

Cawsom orig fach un prynhawn gyda Christopher Billing yn dangos ei ddawn Tae-Kwando. Mae Christopher wedi graddio i felt tag gwyrdd erbyn hyn. Bydd e a'i fam yn mwynhau gwersi Tae-Kwando bob nos Lun a nos Fercher. Mae hon yn grefft arbennig o amddiffyn. Dal ati Christoper – a mam!!